# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 8 Mawrth 2018 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving (Cadeirydd), Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Melvyn Mile, Arwel Roberts, Peter Scott, Rhys Thomas, Tony Thomas a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (NJ) a'r Gweinyddydd Pwyllgor (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Barry Mellor

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiadau eu datgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2017 fel cofnod cywir.*

## 5 CYFLWYNO RHESTR O GERBYDAU HYGYRCH I GADEIRIAU OLWYN DYNODEDIG

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a gofyn am gymeradwyaeth i gyflwyno a chynnal rhestr o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu i awdurdodau lleol gadw rhestr o gerbydau trwyddedig fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat sy'n bodloni gofynion cerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn, a phan mae rhestr yn bodoli, mae'r ddeddfwriaeth yn gosod rhwymedigaethau pellach ar yrwyr a/neu berchnogion y cerbydau hynny, gan greu troseddau am doramoadau a gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr

cadeiriau olwyn. Roedd manylion y dyletswyddau i'w rhoi ar yrwyr cerbydau dynodedig o dan y Ddeddf wedi cael eu darparu yn yr adroddiad ynghyd â manylion eithriadau ac amserlen amcanol ar gyfer cyhoeddi'r rhestr. Roedd canllawiau statudol ffurfiol oddi wrth yr Adran Drafnidiaeth wedi cael eu cyhoeddi (ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad) yn gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno'r rhannau perthnasol o'r Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn darparu gwarchodaeth ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Ystyriodd yr Aelodau gynnwys yr adroddiad, cyngor o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a chanllaw'r Adran Drafnidiaeth a chroesawyd y darpariaethau newydd er mwyn gwarchod hawliau defnyddwyr cadeiriau olwyn yn well a chreu gwelliannau a rhagofalon yn erbyn gwahaniaethu wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig. Nodwyd bod cwynion blaenorol wedi cael eu dwyn gerbron y pwyllgor mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd gan gerbydau trwyddedig sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn a fyddai'n cael eu trin o dan y darpariaethau newydd gyda chosbau'n cael eu rhoi am fynd yn groes i'r cyfrifoldebau a roddwyd ar yrwyr a pherchnogion mewn perthynas â hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr Aelodau yn –*

*(a) cymeradwyo cyflwyno rhestr gyhoeddedig o gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn;*

*(b) dirprwyo gosod y dyddiad gweithredu i'r Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, a*

*(c) cyfarwyddo swyddogion i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu yn ystod 2018 gyda gwybodaeth ar y rhestr a baratowyd.*

## 6 DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I FANYLION CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT PRESENNOL

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn manylu ar y diwygiadau arfaethedig i'r manylebau cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat presennol er mwyn i'r aelodau eu hystyried.

Ers gweithredu polisi cerbydau hacni a hurio preifat newydd ym mis Gorffennaf 2017, amlygodd adborth o'r diwydiant trwyddedu yr angen am fwy o fanylder mewn perthynas â manylebau cerbydau o ran drysau ac roedd yr adran sy'n ymwneud â hygyrchedd cadeiriau olwyn yn cael ei ystyried yn rhy gyfyngol ac efallai y gallai fod â chanlyniadau anfwriadol ar y diwydiant tacsis. O ganlyniad, roedd swyddogion wedi cynnig gwelliant i'r paragraffau perthnasol yn y manylebau cerbydau (fel y manylwyd yn yr adroddiad) a fyddai'n adlewyrchu'n well ofynion yr awdurdod ar gyfer cerbydau trwyddedig mewn perthynas â drysau ac yn caniatáu gwell hyblygrwydd o ran argaeledd mynediad i gadeiriau olwyn er budd y diwydiant trwyddedig a'r cyhoedd sy'n teithio.

Ystyriodd yr aelodau'r diwygiadau arfaethedig a gofynnwyd am sicrwydd na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn gadael yr awdurdod yn agored i'w herio ymhellach.

Eglurodd y swyddogion bod y diwygiadau'n darparu mwy o eglurder; yn cynyddu'r ystod a'r nifer o gerbydau sy'n addas ar gyfer dibenion trwyddedu, ac yn darparu gwell hyblygrwydd o ran y cyfarpar sydd ar gael ar gyfer hwyluso mynediad i gadeiriau olwyn. O ganlyniad, roedd y swyddogion yn fodlon gyda'r addasiadau arfaethedig a -

***PHENDERFYNWYD*** *bod y diwygiadau i'r manylebau cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat fel y manylwyd ym mharagraffau 4.7 a 4.9 yr adroddiad, fel yr ailadroddwyd isod, yn cael eu cymeradwyo ar unwaith –*

- *Adrannau 3.11.1 & 6.5.1 – ""Bydd gan salwnau, ystadau neu dacsis wedi'u haddasu'n arbennig fod â drysau'n agor ar y pedwar ochr, sy'n gallu cael eu hagor o'r tu mewn a'r tu allan. Bydd gan fysiau mini, faniau a cherbydau cludo criw gael tri drws o leiaf, nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddrysau cefn na thinbren."*

- *Adrannau 3.14.1 & 6.8.1 – ""Bydd ramp neu rampiau neu offer codi priodol ar gael bob amser i lwytho cadair olwyn a'r teithiwr i'w defnyddio trwy ddrws cefn yr ochr agosaf."*

## 7 DEDDF GAMBLO 2005 – ADOLYGU DATGANIAD O EGWYDDORION

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno drafft terfynol Datganiad Egwyddorion y Cyngor ar gyfer y Ddeddf Gamblo 2005 i'w mabwysiadu a'i gweithredu o 1 Ebrill 2018.

Roedd gofyniad statudol i adolygu'r Datganiad Egwyddorion bob tair blynedd ac roedd y ddogfen ddrafft wedi cael ei datblygu gan y chwe awdurdod trwyddedu yng Ngogledd Cymru er mwyn sicrhau cysondeb mewn materion yn ymwneud â swyddogaethau a phroblemau gamblo. Roedd y ddogfen ddrafft wedi cael ei chymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Trwyddedu ym mis Medi 2017 ac nid oedd unrhyw sylwadau wedi dod i law.

Ymatebodd y Swyddogion i gwestiynau'r aelodau ynghylch gweinyddiaeth a gorfodaeth o ran gweithgareddau gamblo ac eglurwyd rôl yr awdurdod trwyddedu a'r Comisiwn Gambo i'r perwyl hwnnw. Nid oedd unrhyw feysydd penodol o bryder o ran rheoleiddio gamblo yn y sir ac ar y cyfan cymerwyd camau mewn ymateb i dderbyn cudd-wybodaeth heb ddim trefn archwilio safonol ar gyfer gweithgareddau gamblo, ac roedd gweithredwyr ar y cyfan yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Mewn ymateb i gwestiynau pellach, cadarnhaodd y swyddogion hefyd y gofynion trwyddedu o ran peiriannau gemau gyda gwobrau mawr a loterïau a rafflau cymdeithasu bach. Nodwyd nad oedd casino yn y sir a bod y cyngor wedi penderfynu yn y gorffennol i beidio â chaniatáu ceisiadau am gasinos. Nododd yr aelodau na chafwyd unrhyw sylwadau yn dilyn y broses ymgynghori ac nad oedd cynnwys y ddogfen ddrafft wedi newid. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Datganiad Egwyddorion fel y cyflwynwyd a'i atodwyd i'r adroddiad gael ei fabwysiadu a'i weithredu o 1 Ebrill 2018.*

## 8 DIWEDDARIAD AR BOLISI EUOGFARNAU AC AMODAU GYRWYR A GWEITHREDWYR CERBYDAU HACNI A HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar gynnydd adolygu polisïau sy'n gysylltiedig â Pholisi Euogfarnau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat a Gweithredwyr Hurio Preifat.

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am y gwaith a wnaed gan gweithgor cenedlaethol i ddatblygu model cenedlaethol ar addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai mewn perthynas â thrwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a fu'n destun ymgynghoriad cenedlaethol yn ddiweddar a ddaeth i ben ar 10 Mawrth 2018. Y disgwyl oedd y byddai'r drafft yn cael ei ddatblygu ymhellach a'i ryddhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ymgynghoriad ar drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru yn ddiweddar a byddai gwaith pellach yn dilyn o'r broses honno. Byddai'r ddwy ffrwd waith yn cael effaith ar y broses drwyddedu yn genedlaethol ac yn lleol a chyfeiriwyd am ymgysylltiad y cyngor yn y broses honno.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n well ymgysylltu yn yr ymgynghoriadau gyda'r bwriad o ddatblygu modelau cenedlaethol cyn ystyried y perthnasedd i bolisi trwyddedu tacsis y Cyngor. Fodd bynnag, gofynnwyd cwestiynau ynghylch y potensial ar gyfer canlyniadau cyferbyniol o'r ddwy ffrwd waith o gofio fod un yn cael ei gwneud gan Lywodraeth y DU a'r llall gan Lywodraeth Cymru. Er bod potensial ar gyfer gwahaniaethau cyffredinol rhwng y ddwy weinyddiaeth, rhoddodd y swyddogion sicrwydd bod y ffrydiau gwaith yn yr achos penodol hwn yn canolbwyntio ar wahanol rannau o'r ddeddfwriaeth drwyddedu, gyda'r gweithgor cenedlaethol yn canolbwyntio ar bolisi euogfarnau cyffredinol a Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru.

Amlygodd y Cadeirydd yr angen am gronfa ddata dirymiadau cenedlaethol i atal gyrwyr rhag cael trwydded yn rhywle arall os oeddent wedi cael eu gwahardd neu eu gwrthod mewn ardal benodol. Soniodd y swyddogion am drefniadau anffurfiol gydag awdurdodau cyfagos i rannu gwybodaeth mewn perthynas â hynny, ond cadarnhaodd fod gwaith ar y gweill i gyflwyno cofrestr genedlaethol o drwyddedau sydd wedi eu gwrthod neu ddirymu, y gallai awdurdodau lleol ei defnyddio fel rhan o'r broses ymgeisio wrth asesu addasrwydd gyrwyr. Roedd yr aelodau'n falch o nodi byddai cronfa ddata dirymiadau cenedlaethol yn cael ei chyflwyno yn fuan, a gofynnwyd am gael gwybod y diweddaraf o ran cynnydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr aelodau yn –*

*(a) cydnabod cynnwys yr adroddiad, a*

*(b) cyfarwyddo swyddogion i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu ar waith y gweithgor cenedlaethol a Llywodraeth Cymru wrth i gynnydd pellach gael ei wneud i ganiatáu i aelodau ystyried perthnasedd i bolisïau trwyddedu tacsis y cyngor.*

**9 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu'r aelodau ar gynnydd adolygiad o'r polisi masnachu ar y stryd cyfredol yn Sir Ddinbych.

Yn 2015, rhoddodd y Pwyllgor Trwyddedu awdurdod i swyddogion adolygu'r gyfundrefn masnachu ar y stryd bresennol er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau gyda'r rheoliadau presennol ac awgrymu gwelliannau i
reoleiddio a chefnogi masnachu ar strydoedd y Sir yn well. Cafodd polisi drafft ei ystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu yn Rhagfyr 2016, yn dilyn hynny cynhaliwyd ymgynghoriad cychwynnol gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned ynghyd ag adrannau mewnol y Cyngor. Cafodd sylwadau o'r ymgynghoriad cychwynnol eu cynnwys mewn Polisi Masnachu ar y Stryd drafft a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau o ganlyniad I'r ymarfer ymgynghoriad cyhoeddus hwnnw. Fodd bynnag, roedd adborth oddi wrth unigolion a thimau o fewn y cyngor wedi codi materion pellach I'w hystyried ac ym mis Medi 2017 gofynnodd y Pwyllgor Trwyddedu am gynnal trafodaethau pellach gyda masnachwyr "sefydlog", masnachwyr ar y stryd, cymunedau a thimau'r Cyngor ehangach cyn cytuno ar bolisi terfynol I'w ystyried. Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i lunio strategaeth gychwynnol gan ddefnyddio holiaduron wyneb yn wyneb a chyfryngau cymdeithasol, ynghyd â gwefan y Cyngor i gysylltu a gwahodd adborth gan aelodau allweddol o'r gymuned er mwyn gallu paratoi polisi sydd wedi bod yn destun proses ymgysylltu ac ymgynghori trylwyr.

Nododd yr Aelodau'r cynnydd gydag adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd a'r ymdrechion a wnaed i ymgysylltu ag unigolion a grwpiau penodol a allai gael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y polisi. Amlygwyd y pwysigrwydd o ddatblygu polisi cadarn, addas i'r diben ar gyfer trefi a chymunedau yn y sir, ac ar gyfer tryloywder. Cytunodd y swyddogion adrodd yn ôl ar y rhestr o ymgynghoreion a'u cyfraniadau o ran ffurfio'r ddogfen bolisi derfynol i'r aelodau ei hystyried.

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau'n rhoi awdurdod i swyddogion barhau i weithio gyda grwpiau ac unigolion perthnasol a chyflwyno polisi drafft ar gyfer cyflwyniad mewn Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol.*

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2018**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer 2018.

Codwyd y materion canlynol –

- Roedd y Cadeirydd a'r Cynghorydd Tony Thomas (Aelod Arweiniol dros Drwyddedu) wedi bod yng nghwmni'r Swyddogion Trwyddedu a Heddlu Gogledd Cymru ar ymgyrch reoleiddio ar y cyd yng ngogledd y sir, a oedd wedi cynnwys ymweliadau â nifer o eiddo trwyddedig yn oriau mân y bore. Bu'r ymgyrch yn un gwerth ei gwneud gyda pherthynas dda rhwng y trwyddedigion a'r swyddogion a chymorth a chydweithrediad ymysg pawb. Mynegwyd peth

pryder ynghylch tystiolaeth o ddefnyddio cyffuriau mewn eiddo trwyddedig ac o fewn y gymuned ehangach, a soniodd y swyddogion am y mesurau sy’n cael eu cymryd trwy ymagweddau amlasiantaeth i fynd i’r afael â’r mater hwnnw. Cyfeiriwyd at gylch gorchwyl y Pwyllgor Trwyddedu I’r perwyl hwn a’u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Drwyddedu. Er mai mater i’r heddlu yn bennaf oedd cyffuriau, gofynnodd yr aelodau am gael gwybod am unrhyw ddatblygiadau yr oedd swyddogion yn dod yn ymwybodol ohonynt wrth fynd i’r afael â’r mater hwnnw.

- Roedd y Cadeirydd a’r Cynghorydd Alan James (is-gadeirydd) wedi cyfarfod gyda swyddogion i ymgymryd â’r adolygiad o’r ffurflenni cais, fel y gofynnodd y pwyllgor, ac roedd y cyfeiriad at ddatgelu euogfarnau bellach wedi cael ei wneud yn fwy eglur ar gyfer ymgeiswyr - byddai’r ffurflenni newydd yn cael eu cyflwyno maes o law
- Cyfeiriwyd at y sesiwn hyfforddiant hanner diwrnod ar drwyddedu tacsis a drefnwyd ar gyfer 9.00 a.m. ar 19 Ebrill 2018 yn Neuadd y Sir, Rhuthun, ac anogwyd yr aelodau i hysbysu’r swyddogion os oedd ganddynt unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol penodol.

Roedd yr Aelodau yn fodlon gyda chynnwys y rhaglen waith ac felly –

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo rhaglen gwaith i’r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylwyd yn yr Atodiad 1 yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 a.m.